

galeri

Swydd: **CYNORTHWYDD CYFFREDINOL**

Adran: **GWEITHREDIADAU**
Yn atebol i: **RHEOLWR CAFÉ BAR / RHEOLWR AR DDYLETSWYDD / TÎM RHEOLI GALERI**

Cyflog: **Cyfradd uwch na'r isafswm cyflog Cenedlaethol**
Oriau: **Cytundebau hyd at 40 awr yr wythnos ar gael (sydd yn cynnwys gweithio gyda'r nosau/ penwythnosau/ rhai gwyliau banc yn unol â'r ROTA)**
Croesewir hefyd ceisiadau ar gyfer gweithwyr achlysurol (dim cytundeb)

Ydy'r diddordeb, yr egni a'r agwedd iawn gennych i fod yn ran allweddol o'n Tîm ni yn Galeri? Rydym yn gyfrifol am roi gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid mewn lleoliad arbennig, awyrgylch amrywiol, diddorol a phrysur.

Prif bwrpas y Swydd:

I gynorthwyo gyda holl drefniadaeth Bar / Caffi a Sinema Galeri ac i roi gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid

I gynorthwyo gyda cyflenwi dros dro yn ystod cyfnodau gwyliau/ salwch ayyb

I sicrhau safon ac ansawdd gwasanaeth o'r safon uchaf pob amser

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Cyflwyno ei hun am ddyletswydd yn brydlon, mewn cyflwr glan a hylan, ac i wisgo'r wisg unffurf a bathodyn enw drwy'r amser tra ar ddyletswydd
- I gynorthwyo'r Rheolwr a gweddill y tîm i sicrhau gwasanaeth o'r safon uchaf yn gyson
- I sefydlu agwedd cwrtais, proffesiynol a chyfeillgar tuag at gwsmeriaid a staff y gyfundrefn
- Cymryd rhan gorfforol i gymryd archebion wrth y byrddau / gwasanaethu diodydd yn unol â'r archebion, sicrhau bod gofynnion y cwsmer yn cael ei cyflawni a bod cynnwys yr archeb yn gywir pob amser

- I gael gwybodaeth trylwyr o be da ni'n ei gynnig a sicrhau ymwybyddiaeth cyn cychwyn shifft
- I gael ymwybyddiaeth o anghenion dietegol amrywiol er mwyn argymell i gwsmeriaid beth sy'n addas
- I fod yn flaenweithgar i uchafu gwerthiant a chynhyrchu elw
- I gael ymwybyddiaeth parhaol o beth sy'n digwydd yn yr adeilad o ddydd i ddydd
- I gymeryd cyfrifoldeb personol i jecio'r 'Rota' gwaith wythnosol a cynefino eu hunain
- Bod yn ragweithiol i adnabod ddiffyg / prinder stoc a gwneud yn siwr bod archebion yn cael eu gwneud
- Sicrhau bod na stoc addas o bopeth yn weledol i'r cwsmer pob amser
- Bod yn rhagweithiol i gadw byrddau tu mewn i'r caffi, yn y Bar a thu allan i'r adeilad yn glir, glan a barod am wasanaeth pob amser
- Sicrhau safon glendid enghreifftiol yn y caffi, y Bar, y sinema a'r ardaloedd cysylltiedig yn reolaidd
- Gosod llestri a chynhwysion ar gyfer gofynnion arlwygo mewn ystafelloedd cyfarfod a gwneud yn siwr bod archebion yn barod ar amser i'r ystafelloedd yma- yn yr un modd, sicrhau bod llestri/ unrhyw fwydydd yn cael eu clirio yn brydlon a rheolaidd
- Cyn gorffen shifft, sicrhau bod pob tasg wedi'i gyflawni a bod yr ardaloedd gwaith/lloriau/offer yn lan ag yn daclus
- I gynorthwyo yn y gegin efo dyletswyddau megis darparu cynhwysion ac archebion bwyd / golchi llestri / glanhau cyffredinol
- Ymateb yn dawel a chyfeillgar i unrhyw gwynion gan gwsmeriaid, ac ymateb/adrodd yn syth at y Rheolwr/Dirprwy
- Adrodd unrhyw ddifrod, boed o'n ddifrod i lestri, offer neu ddodrefn yn syth i'r Rheolwr/Dirprwy
- Dilyn dulliau gweithio diogel pob amser fel maent wedi eu amlinellu ym mholisi Iechyd a Diogelwch y Cwmni ac i fod yn gyfarwydd â'r dull gweithredu mewn argyfwng tân neu ddamwain
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n rhesymol i'r Rheolwr / Dirprwy ofyn ohonoch
- Cydymffurfio gyda safonau, telerau ac amodau Glendid Bwyd a chyflawni unrhyw Hyfforddiant perthnasol â hynny

- Cydymffurfio gyda safonau, telerau a amodau a osodir yn Llawlyfr Staff y Cwmni

Cymhwyseddau Ymddygiad / Sgiliau

Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu rhagorol

Dibynadwy a brwdfrydig

Y gallu i gadw'n dawel ac effeithiol o dan bwysau

Profiad mewn gwasanaethu bwyd a diodydd

Sgiliau trefnu amser

Y gallu i gysylltu â phob lefel o staff / cwsmeriaid

Cyfathrebu yn y Gymraeg

Dymunol:

Cymhwyster Glendid Bwyd

CHWEFROR 2022

